

Rhif: WG36453



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllun Gwella Pont Afon Dyfrdwy A494

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2018
Ymatebion erbyn 4 Chwefror 2019

Gorolwg

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) wrthi'n ymchwilio i opsiynau ar gyfer pont newydd ar yr A494 dros Afon Dyfrdwy.

Dymunwn ofyn am eich barn ar yr opsiwn a ffefrir.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys set o gwestiynau penodol y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'ch ymateb iddynt.

Sut i ymateb

Cwblhewch a dychwelwch y ffurflen ymateb i'r cyfeiriad isod erbyn 4 Chwefror 2019.

Mae fersiynau print bras, Braille a ieithoedd eraill ar gael o'r ddogfen hon ar eich cais.

Gwybodaeth pellach a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen i'w gweld ar:

<https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>

I gael rhagor o wybodaeth:

Manylion cyswllt

E-bost: ymholiadau@acgcc.org.uk

Cofiwch roi **'Cynllun Gwella Pont Afon Dyfrdwy A494'** yn y blwch pwnc.

Post:

Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
RHADBOST
Adeiladau'r Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Cyflwyniad

Rydym yn gweithio ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) ar gynigion i gael pont newydd ar yr A494 dros Afon Dyfrdwy. Rydym yn gwneud hyn am fod cyflwr y bont wedi dirywio.

Rydym wedi edrych ar nifer o opsiynau i gymryd lle'r bont bresennol. Rydym yn awr yn cynnig ateb arfaethedig ac rydym yn eich gwahodd i ymateb iddo.

Pam mae angen pont newydd?

Oherwydd ei hoed mae rhai nodweddion o adeiladwaith y bont wedi dirywio. Byddai'n anodd cynnal y rhain yn y tymor hir. Byddai cywiro'r dirywiad yn golygu cau'r bont am gyfnodau hir. Byddai hyn yn achosi oedi i rai sy'n ceisio croesi'r bont ac ar y rhwydwaith ffyrdd ehangach yn yr ardal.

Yn ogystal â phroblemau ag adeiladwaith y bont, nid yw'n cyrraedd safonau modern:

- Mae bron ddwywaith yn fwy o draffig yn mynd drosti na'r hyn y bwriadwyd hi ar ei gyfer.
- Nid oes llain galed arni. Mae cerbydau sy'n torri'n gallu achosi oedi hir ar y ffyrdd sy'n arwain at y bont.
- Mae'r llwybr troed ar y bont yn gul iawn.
- Nid yw'r llain ganol na'r rhwystrau amddiffynnol yn cyrraedd y safonau gofynnol.

Canfod ateb

Rydym wedi penodi Mott MacDonald a'u partneriaid Richards, Morehead & Laing i ystyried yr opsiynau posibl i gael pont arall. Mae'r opsiynau hyn wedi cael eu hasesu gan ddilyn canllaw WelTAG Llywodraeth Cymru. Mae'r canllaw yn sicrhau bod y cynllun a ddewisir yn:

- dangos gwerth am arian
- arwain at fuddiannau trafnidiaeth, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- golygu'r budd mwyaf posibl gyda'r effaith leiaf posibl

Gan ddefnyddio'r asesiad hwn dewiswyd cynllun posibl. Nod y cynllun yw gwella amseroedd teithio a gwneud teithiau'n fwy dibynadwy, gan roi sylw i broblemau ansawdd yr aer i wella iechyd a llesiant preswylwyr lleol. Y cynllun hwn hefyd yw'r un a fydd yn cael yr effaith leiaf yn ystod y cyfnod adeiladu o'i gymharu â'r opsiynau eraill.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses WelTAG ar wefan y prosiect

<https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>


Y cynllun a gynigir gennym

Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys:

- tair lôn i bob cyfeiriad
- llain galed i bob cyfeiriad
- llwybr sy'n cael ei rannu gan feicwyr a cherddwyr
- strwythur newydd ar gyfer traffig i'r gorllewin
- pont newydd ar gyfer traffig i'r dwyrain

Yn ystod cyfnod adeiladu'r cynllun arfaethedig, byddai dwy lôn i bob cyfeiriad yn agored. Byddai hyn yn amharu llai ar yr A494 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Efallai bydd adegau pan fydd angen cyfyngu i un lôn ond gwneir pob ymdrech i sicrhau na fydd hyn yn digwydd yn ddim mwy nag sy'n gwbl angenrheidiol, ac y byddai'n yn digwydd yn ystod y nos, lle bynnag y bo'n bosibl.

Byddwn yn cynnal Aseiad statudol o Effaith Amgylcheddol y cynllun arfaethedig, sy'n cynnwys aseiad ffurfiol o effaith y cynllun arfaethedig ar gynefinoedd a safleoedd dynodedig. Mae rhagor o wybodaeth am ystyriaethau amgylcheddol y cynllun ar gael ar wefan y prosiect <https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>.



Sut allaf fi gael gwybod mwy?

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus lle gallwch weld rhagor am y cynllun arfaethedig. Bydd cyfle i chi gwrdd â Thîm y Prosiect a fydd yn barod i ateb eich cwestiynau.

Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn y digwyddiadau hyn.

Dydd Mawrth 20 Tachwedd 14:00 – 20:00	Eglwys St Andrews, 61 Sealand Avenue, Garden City, Glannau Dyfrdwy, CH5 2HN
Dydd Sadwrn 24 Tachwedd 10:00 – 16:00	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Chester Road West, Queensferry, CH5 1SA

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn <https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>.

Sut allaf fi wneud sylwadau?

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am ein cynllun arfaethedig. Gallwn wedyn ystyried eich barn a'ch sylwadau i ffurfio'r dyluniad terfynol. Mae sawl ffordd o wneud sylwadau:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a geir ar ddiwedd y daflen hon ac y gallwch ei dychwelyd atom yn ddi-dâl.
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn <https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>
- Dod i un o'n Digwyddiadau Ymgynghori lle bydd copiâu papur o'r ffurflen ymateb ar gael.
- E-bostio ACGCC enquiries@nmwtra.org.uk / [ymholiadau@acgcc.org.uk](mailto:yholiadau@acgcc.org.uk)
- Ysgrifennu at: Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

Er mwyn ein helpu i ffurfio ein dyluniad terfynol, gofynnir i chi gyflwyno eich ymateb erbyn **hanner nos ar ddydd Llun 4 Chwefror 2019**.

Y Camau Nesaf

Byddwn yn adolygu'r holl sylwadau ac awgrymiadau ar ôl i'r cyfnod ymateb i'r ymgynghoriad ddod i ben am hanner nos ddydd Llun 4 Chwefror 2019. Bydd y rhain wedyn yn cael eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses ddylunio. Byddwn hefyd yn cynhyrchu adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion.

Bydd diweddariadau ar gynnydd y cynllun i'w gweld yma:

<https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>.

Ffurflen Adborth i'r Ymgynghoriad

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y cynllun arfaethedig, ynghyd ag unrhyw bryderon neu faterion yr hoffech eu crybwyll. Cwblhewch y ffurflen isod a'i dychwelyd trwy radbost. Os oes angen mwy o ofod, defnyddiwch ragor o bapur.

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol yma a fydd yn eu galluogi i benderfynu ar sail gwybodaeth ynghylch sut y byddant yn ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n trin y materion y mae a wnelon nhw â'r ymgynghoriad yma neu wrth gynllunio ymgynghoriadau n y dyfodol. Os yw Llywodraeth Cymru'n cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gallant gomisiynu trydydd parti wedi'i achredu (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) i gyflawni'r gwaith yma. Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn sefydlu gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallwn hefyd gyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw na'ch cyfeiriad ymddangos, anfonwch air atom i'r perwyl yma wrth dychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn golygu'r enw a'r cyfeiriad cyn cyhoeddi'r ymatebion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ran o'ch data y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw fel arall yn cael ei gadw'n hirach na thair blynedd.

Eich hawliau

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod pa ddata a gedwir amdanoch a'r hawl i gael mynediad iddynt
- i ofyn ein bod ni'n cywiro gwallau yn y data dan sylw
- (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu i'r broses neu i gyfyngu arni
- (mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'diddymu'
- (mewn rhai amgylchiadau) i'r data gael eu symud
- i gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch chi, a'r defnydd a wneir o'r data, neu os ydych yn awyddus i ymarfer eich hawliau dan y GDPR, gwelwch y manylion cysylltu isod:

Manylion cysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Ffôn: 01625 545 745 or
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhan 1: Y Cynllun Arfaethedig

C1 Beth yw eich cod post? _____

C2 A ydych chi'n dirfeddiannwr sy'n cael ei effeithio?

Ydw/Nac ydw

C3. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig i gael pont newydd ar yr A494 dros Afon Dyfrdwy?

C4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau'n ymwneud ag adeiladu'r cynllun?

C5. A oes gennych chi unrhyw sylwadau'n ymwneud â'r cyfleusterau arfaethedig ar gyfer cerddwyr a beicwyr?

C6. A oes gennych chi ragor o sylwadau yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r cynllun arfaethedig?